






Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Gell Cyngor Technegol

## Crynodeb o'r cyngor

19 Mawrth 2021



# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

19 Mawrth 2021

## Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae nifer yr achosion newydd yng Nghymru wedi **cynyddu 8%** ar lefel genedlaethol yr wythnos hon i **42 achos fesul 100,000**, yn dilyn llai o ostyngiad yr wythnos diwethaf o'i gymharu â'r wythnosau blaenorol.
- Bu cynnydd amlwg yn nifer yr achosion yn ardaloedd sawl un o'r awdurdodau lleol a gellir priodoli hyn i nifer o glystyrau lleol mewn lleoliadau gofal iechyd, aelwydydd ac ysgolion yr ymddengys eu bod yn gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chanllawiau a chyfyngiadau. Bydd yn hanfodol helpu unigolion i reoli eu hymddygiad amddiffynnol eu hunain wrth i'r cyfyngiadau ddechrau cael eu llacio.
- Bu cynnydd yn yr achosion yn ôl oedran **yn y grwpiau oedran o dan 20 oed** o'i gymharu â'r cyfnod 7 diwrnod blaenorol, **yn enwedig ymysg plant o dan 10 oed, lle bu cynnydd o 33%**. Mae'r achosion y parhau i ostwng ymysg y grwpiau oedran eraill, er bod yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth yn parhau i fod ar eu huchaf ymhlith pobl 30-39 oed ac 85+ oed.
- Mae positifedd profion yn parhau i fod yn **3.6% ar gyfer Cymru** gydag amrywiad sylweddol ar lefel awdurdod lleol. Ym Merthyr Tudful ac yn Ynys Môn y cafwyd y cyfraddau uchaf, sef **7.8% ac 8.2% yn bositif**, yn y drefn honno. Ac eithrio Conwy, Sir y Fflint a Gwynedd mae'r cyfraddau ym mhob pob ardal arall **yn is na'r trothwy positifedd o 5%**.
- Yr amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu (Rt) gan SAGE yw rhwng **0.6 a 0.9** ar gyfer Cymru ac ar gyfer y DU, sy'n golygu bod cyfradd twf y feirws wedi crebachu **6 i 1%**.
- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cyfrifo  $R_t$  yn seiliedig ar nifer yr achosion positif, yn amcangyfrif bod  $R_t$  yn **0.99**, gan arwain at **gyfradd twf o 0.5% y dydd**. Fodd bynnag, ar gyfer achosion ymysg pobl 60+ oed, mae'n ymddangos eu bod yn crebachu **ar gyfradd o 2.8% y dydd**.
- **Mae marwolaethau COVID-19 a gofnodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ostwng** gyda gostyngiad o 24% ar gyfer y cyfnod o 7 diwrnod a ddaeth i ben ar 17 Mawrth, ond cafwyd 28 o farwolaethau o COVID-19 yn y cyfnod diweddaraf. Ym mis Chwefror, COVID-19 oedd y prif achos marwolaeth am y pedwerydd mis yn olynol, yn ôl dadansoddiad marwolaeth misol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).
- Mae'r ONS wedi adrodd bod cyfanswm nifer y marwolaethau a gofrestrwyd ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 5 Mawrth yn **is na'r cyfartaledd pum mlynedd am y tro cyntaf yn 2021**. Yng Nghymru, gostyngodd y marwolaethau'n gysylltiedig â COVID-19 a gofrestrwyd o 138 i 103, sef **14.9% o'r holl farwolaethau**.
- Ar 10 Mawrth, VOC 202012/01 (a nodwyd gyntaf yng Nghaint) yw'r amrywiolyn COVID-19 amlycaf yng Nghymru a'r DU o hyd. Ni chafwyd unrhyw achosion pellach o VOC 202012/02 (yr amrywiolyn sy'n gysylltiedig â De Affrica) ers yr adroddiad diwethaf gyda 25 o achosion yng Nghymru wedi'u canfod hyd yma. Hyd at yr wythnos hon, mae **1 achos** o'r amrywiolyn VUI-202101/01 sy'n gysylltiedig â Brasil wedi'i nodi yng Nghymru ac mae **3 achos** o'r amrywiolyn VUI 202102/03 sy'n gysylltiedig â Nigeria wedi'u nodi yng Nghymru.

- **Amrywiolyn De Affrica** sy'n peri'r pryder mwyaf o hyd, oherwydd tystiolaeth bod lefelau'r gwrthgyrff niwtraleiddio yn ei erbyn yn wannach. Ar hyn o bryd, amrywiolyn De Affrica sydd i'w gyfrif am gyfran gynyddol o achosion yn Nwyrain Ffrainc. **Lleihau'r risg o drosglwyddo a mewnforio achosion ar y ffin yw'r ffordd fwyaf effeithiol o hyd o leihau'r risg y bydd amrywiolynnau newydd yn dod i'r amlwg yn y DU (hyder uchel).**
- Mae gan yr amrywiolyn P1, a ganfuwyd gyntaf mewn teithwyr i Japan o Frasil, rai o'r un mwtaniadau ag amrywiolyn De Affrica, yr ymddengys eu bod yn lleihau effeithiolrwydd brechlynnau. Er nad yw wedi'i weld yng Nghymru eto, mae nifer o achosion wedi'u nodi mewn mannau eraill yn y DU.
- Er y bydd y niferoedd yn uwch oherwydd bod data'n dal i gael eu cofnodi, ar 19 Mawrth **mae 1,258,769 dos cyntaf o frechlyn COVID-19 wedi'u rhoi yng Nghymru ac mae 257,398 o bobl wedi cael eu hail ddos.**
- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ei ail [adroddiad gwyliadwriaeth ar frechu](#) ac mae hwn yn nodi, er bod anghydraddoldebau sylweddol o hyd yng Nghymru rhwng grwpiau ethnig a chymdeithasol-economaidd o ran rhoi'r brechlyn COVID-19, bod y bylchau o ran yr oedolion hŷn sydd wedi cael eu brechu **wedi lleihau ar y cyfan ers yr adroddiad blaenorol.**
- **Mae data symudedd yn dangos cynnydd yn dilyn y newid yn y canllawiau, o aros gartref i aros yn lleol, ar benwythnos 13 Mawrth.** Ar gyfer yr wythnos hyd at 20 Mawrth, roedd symudedd ymysg defnyddwyr Facebook ar ei uchaf ers 17 Rhagfyr (cyn cyflwyno lefel rhybudd 4 ar 20 Rhagfyr) ac roedd y data symudedd ar gyfer y gweithle (gan Google) ar gyfer yr wythnos hyd at 16 Mawrth ar ei uchaf ers 18 Rhagfyr.
- Ar 18 Mawrth ar gyfer y cyfnod 7 diwrnod diweddaraf, mae nifer y bobl yn yr ysbyty y cadarnhawyd bod COVID-19 arnynt wedi **gostwng 30% i gyfartaledd wythnosol o 222 o welyau yn cael eu defnyddio.** Mae nifer y bobl mewn gwelyau ysbyty sy'n gwella o COVID-19 yn parhau i ostwng. Ychydig dros 600 yw'r nifer yn yr wythnos ddiweddaraf, sy'n ostyngiad o 12% ers y cyfnod 7 diwrnod blaenorol.
- **Mae'r defnydd o welyau mewn Unedau Gofal Dwys (ICU) ar gyfer COVID-19 wedi gostwng 9%.** Mae cyfartaledd wythnosol o 29 o welyau ICU yn cael eu defnyddio, o'i gymharu â'r cyfartaledd wythnosol o 20-30 o welyau ar ddechrau'r pandemig).
- Mae papurau cyhoeddedig SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol ar gael [yma.](#)

Papurau'r Grŵp Cyngor Technegol/y Gell Cyngor Technegol a gyhoeddwyd yr wythnos hon:

- [Y Grŵp Cyngor Technegol: y Risg o Drosglwyddo SARS-CoV-2 mewn toiledau cyhoeddus](#)
- [Y Grŵp Cyngor Technegol: ystyriaethau i liniaru risgiau cynyddu trosglwyddo COVID-19 yn ystod etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau](#)

Papurau SAGE a gyhoeddwyd yr wythnos hon:

- [SPI-M-O: Amcanestyniadau'r sefyllfa waethaf bosibl, 7 Ionawr 2021](#)
- [SPI-M-O: Amcanestyniadau tymor canolig, 3 Mawrth 2021](#)

- [SPI-M-O: Datganiad consensws ar COVID-19, 3 Mawrth 2021](#)